
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban Dysgu drwy Leoliadau Myfyrwyr (Datgelu er lles y Cyhoedd)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Cwmpas ........ 4
3. Perthynas â Gweithdrefnau eraill ........ 4
4. Diffiniadau ........ 4
5. Cyfrifoldebau Sefydliadau Partner a Darparwyr Lleoliadau ........ 5
6. Cyfrinachedd ac Amddiffyn ........ 5
7. Addasiadau Rhesymol ........ 5
8. Gweithdrefn ........ 6
9. Datganiad o Fater ........ 6
10. Ymchwilio i bryderon ........ 6
11. Canlyniad yr Ymchwiliad ........ 7
12. Adolygu Canlyniad ........ 7
13. Monitro ........ 7
14. Goblygiadau o ran Adnoddau ........ 8
15. Asesiad o Effaith: ........ 8
16. Awdur y Polisi ........ 8
17. Rheoli Fersiynau Dogfennau ........ 8

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae gweithdrefn Chwythu'r Chwiban Dysgu ar Leoliad y Brifysgol yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gynlluniau sy'n cynnwys lleoliadau arfer proffesiynol, dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau.

1.2. Mae'r weithdrefn yn ychwanegu at Bolisi Chwythu'r Chwiban cyffredinol y Brifysgol drwy ddarparu ffordd o godi pryderon ar leoliad. Gall y pryderon hyn fod yn ymwneud â thorri codau ymarfer proffesiynol perthnasol neu'r pryderon eraill a restrir yn adran 1.3 isod, p'un a ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses addysgol neu beidio a p'un a ydynt yn ymwneud â chydweithiwr neu gyflogwr.

1.3. Diben y weithdrefn hon yw amlinellu'r camau ar gyfer gwneud datgelu er lles y cyhoedd ynglŷn ag unrhyw bryderon neu amheuon o ddrygioni neu gamymddwyn yn y lleoliad, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- 1.3.1. Arferion twyllodrus neu lwgr
- 1.3.2. Methiant i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu broffesiynol neu ofynion rheoleiddio
- 1.3.3. Camweinyddu cyfiawnder;
- 1.3.4. Pryderon iechyd a diogelwch
- 1.3.5. Cam-drin defnyddwyr gwasanaeth
- 1.3.6. Hwyluso efadu trethi
- 1.3.7. Gwahaniaethu neu aflonyddu
- 1.3.8. Ymddygiad anfoesol neu anghyfreithlon
- 1.3.9. Camddefnyddio cyfalaf neu adnoddau
- 1.3.10. Ymddygiad anaddas neu anfoesol arall
- 1.3.11. Atal neu guddio unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw rai o'r uchod.

1.4. Mae'r weithdrefn yn berthnasol i bob cynllun perthnasol sy'n arwain at ddyfarniadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, er y bydd myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn sefydliad partner yn defnyddio eu gweithdrefn nhw yn y lle cyntaf.

1.5. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan fyfyrwyr ar leoliadau ddyletswydd i adrodd ar ymddygiad neu arfer peryglus, camdriniol, gwahaniaethol neu ecsbloetiol. Mae'n cydnabod hefyd anallu a breuder cymharol myfyrwyr a allai fod yn cael eu hasesu gan staff seiliedig ar waith yn ystod eu lleoliad. Mae'r Brifysgol o ddifri am ei chyfrifoldebau i'w myfyrwyr ac yn credu ei fod yn bwysig bod myfyrwyr yn gallu lleisio eu pryderon a bod eu lles cael ei ddiogelu.

1.6. Mae disgwyl i bob myfyriwr ar raglenni proffesiynol gydymffurfio â'r Cod Ymarfer perthnasol i'r proffesiwn maent yn ceisio cael mynediad iddi. Mae'r codau hyn yn llywodraethu ymddygiad myfyriwr mewn neu du allan i fan gwaith neu leoliad, ac yn amlinellu safonau ymddygiad ac arfer a ddisgwylir gan yr holl randdeiliaid, bod yn staff Prifysgol, cyd-fyfyrwyr, darparwyr lleoliadau, cyflogwyr, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaethau neu'r cyhoedd.

1.7. Ni chymerir dim camau niweidiol o unrhyw fath yn erbyn myfyriwr sy'n gwneud cwyn o'r natur a ddisgrifiwyd uchod, ar yr amod y gwneir hynny heb falais ac yn ddidwyll. Fodd bynnag, gall cwyn maleisus neu flinderus arwain at gamau disgyblu trwy Bolisi Camymddwyn Anacademaidd neu Gymhwyster i Ymarfer y Brifysgol.

## 2. Cwmpas

2.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr, ar bob lefel astudio, sydd wedi cofrestru'n uniongyrchol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

2.2. Bydd myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partneriaeth cydweithredol yn dilyn polisi'r sefydliad hwnnw.

2.3. Gellir disodli pob cyfeiriad at Swyddogion Prifysgol gan ddirprwy neu unigolyn arall a enwebir fel y bo'n briodol.

## 3. Perthynas â Gweithdrefnau eraill

3.1. Efallai bydd y myfyriwr, dan arweiniad, yn dymuno ystyried p'un a ellid ymdrin â'r pryder mewn modd mwy priodol o dan nifer o bolisïau presennol eraill y Brifysgol, megis y Polisi Diogelu, Polisi Camymddwyn Anacademaidd, Cymhwyster i Ymarfer, Polisi Cwynion Myfyrwyr neu bolisïau ar Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, lle nad yw'r rhain yn berthnasol dylai'r myfyriwr ystyried droi at y Weithdrefn Chwythu'r Chwiban Dysgu ar Leoliad (Datgelu er lles y Cyhoedd).

3.2. Mae'r Polisi hwn yn rhan o Fframwaith Lleoliadau'r Brifysgol.

## 4. Diffiniadau

4.1. **Datgelu er lles y cyhoedd**: Datgeliad a wneir gan unigolyn er lles y cyhoedd ynglŷn â phryderon neu amheuon o ddrygioni, camymddwyn, neu beryglu bywyd, diogelwch neu'r amgylchedd.

4.2. **Chwythwr chwiban:** unigolyn sy'n gwneud datgeliad er lles y cyhoedd.

4.3. **Drygioni:** unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n anghyfreithiol, anfoesol, neu'n torri polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad.

4.4. **Datganiad o Fater:** datganiad ysgrifenedig a gyflwynir gan y chwythwr chwiban yn amlinellu eu pryderon neu amheuon o ddrygioni.

4.5. **Cydlynydd/Tiwtor:** Aelod o staff a enwebir sydd â chyfrifoldeb am fyfyrwyr ar leoliad yn yr uned astudio (microgredyd, modwl, rhaglen).

4.6. **Panel Asesu Risg (PAR):** Fel arfer, bydd y PAR yn cynnwys y Cyfarwyddwr Profiad Academaidd, y Deon Ansawdd Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Academaidd a'r Cydlynydd/Tiwtor Lleoliad neu eu henwebai.

4.6.1. Os bydd y Datganiad o Fater yn codi pryderon ynghylch diogelu, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd yn cael ei g/chynnwys.

4.6.2. Lle bo'n briodol, bydd y PAR yn ymgynghori ag aelodau priodol Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol.

4.7. Diffiniad **Lleoliad** yw cyfnod o brofiad gwaith neu interniaeth

4.7.1. ymgymerir ag ef yn rhan annatod o raglen, lle bo cyflawni'r deilliannau dysgu ar gyfer lleoliad yn amodol ar y trefniadau a wnaed gyda Darparwr y Lleoliad;

4.7.2. lle bo'r myfyriwr wedi cofrestru yn y Brifysgol yn ystod y cyfnod hwn; a

4.7.3. Lle bo goruchwyliaeth uniongyrchol y myfyriwr yn cael ei drosglwyddo i'r Darparwr Lleoliad. Mae lleoliadau myfyrwyr yn bartneriaeth rhwng y myfyriwr, y Brifysgol a'r Darparwr Lleoliad.

## 5. Cyfrifoldebau Sefydliadau Partner a Darparwyr Lleoliadau

5.1. Rhaid i bob sefydliad sy'n derbyn myfyrwyr ar leoliadau nodi unigolyn cyswllt priodol at y dibenion a amlinellwyd uchod, sy'n gymwys i weithredu ymchwiliad mewnol priodol.

5.1.1. Fel arfer, byddai hyn trwy broses chwythu'r chwiban y sefydliad ei hun. Lle nad oes proses o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd, bydd rhaid i sefydliad y lleoliad roi proses priodol ar waith a fydd yn cael ei fanylu mewn atodiad i'w contract gyda'r Brifysgol. Bydd hwn yn amlinellu'r amgylchiadau lle gellid rhoi gweithdrefn o'r fath ar waith, ac yn cadarnhau hawliau anhysbysrwydd a rhyddid rhag gwahaniaethu ar gyfer y myfyriwr sy'n cyflwyno Datganiad o Fater.

5.2. Fel arfer, bydd y Brifysgol ond yn cynnig cyfleoedd dysgu arfer i fyfyrwyr mewn asiantaethau neu sefydliadau sydd wedi cytuno'n unswydd i ymchwilio i unrhyw faterion o bryder sy'n effeithio ar fudd y cyhoedd a godir gan fyfyriwr o fewn cyfnod amser rhesymol, gan adrodd nôl yn agored i'r Brifysgol.

## 6. Cyfrinachedd ac Amddiffyn

6.1. Dylid cadw'r chwythwr chwiban yn anhysbys a chadw manylion eu pryderon yn gyfrinachol gymaint â phosibl, ac eithrio lle bydd rhaid ymchwilio i'r pryderon neu adrodd ar y mater i'r awdurdodau priodol.

6.2. Ni ddylid erlid y chwythwr chwiban ac ni ddylai ddioddef dim dial o ganlyniad i wneud datgeliad er lles y cyhoedd. Mae'r enghreifftiau o ddial yn cynnwys, ond heb gael eu cyfyngu i:

6.2.1. Diraddio neu ddiswyddo

6.2.2. Aflonyddu neu fwlio

6.2.3. Brawychu neu fygythion

6.2.4. Marcio Rhagfarnllyd

6.2.5. Caiff unrhyw erlid neu ddial ei drin fel mater ar wahân ac ymchwilir iddo'n unol â hynny.

6.3. Bydd y Brifysgol yn ystyried ei goblygiadau dan reoliadau diogelu data perthnasol a Deddf Cydraddoldeb 2010 yng nghyswllt unrhyw wybodaeth a rennir am Ddatganiad o Fater.

6.4. Atgoffir pob parti am y cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau a nodir uchod. Datgelir gwybodaeth yn gysylltiedig â'r achos i gyn lleied o bobl â phosibl.

## 7. Addasiadau Rhesymol

7.1. Os oes gan fyfyrwyr anabledd neu anhawster dysgu a ddatgelwyd gyda'r Brifysgol, yna gall y Brifysgol wneud addasiadau rhesymol i'w cefnogi gyda'r broses hon. Dylent gysylltu â'r Gwasanaethau Myfyrwyr i drafod eu hanghenion.

## 8. Gweithdrefn

8.1. Yn y lle cyntaf, dylai myfyriwr sy'n dymuno adrodd ar fater gyflwyno eu pryderon i'r Cydlynydd/Tiwtor Lleoliad perthnasol. Os nad yw'r myfyriwr yn teimlo bod eu Cydlynydd/Tiwtor Lleoliad yn ddigon amhleidiol, dylent godi eu pryderon gyda'u Cyfarwyddwr Academaidd yn uniongyrchol.

8.2. Caiff panel asesu risg (PAR) ei gynnull cyn gynted ag y bod modd i wneud penderfyniad ynghylch y camau cyntaf i'w cymryd cyn gynted ag y caiff y pryder ei godi.

8.3. Bydd y panel yn nodi cofnod llawn a chywir o'r mater ac yn gwneud penderfyniadau ar unwaith ynghylch y camau i'w cymryd cyn llunio datganiad o fater a chynnal ymchwiliad.

8.3.1. Sicrhau bod y myfyriwr yn ddiogel ac y cynigir cymorth llesiant priodol iddo/iddi

8.3.2. Gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid tynnu myfyrwyr eraill yn ôl o'r un lleoliad

8.3.3. Ystyried cynllun gweithredu byr ar gyfer y camau nesaf.

## 9. Datganiad o Fater

9.1. Bydd y Cydlynydd/Tiwtor Lleoliad yn rhoi cyngor i'r myfyriwr ar sut i baratoi datganiad yn amlinellu'r mater ('Datganiad o Fater') ac ar y weithdrefn a gaiff ei dilyn. Bydd y cyngor hwn yn cynnwys rhoi gwybod i'r myfyriwr am y cyfyngiadau posibl fydd gan unrhyw ymchwiliad o ganlyniad i ddiogelu anhysbysrwydd. Nid rôl y Cydlynydd/Tiwtor Lleoliad yw llunio Datganiad o Fater drafft na rhoi cyngor o blaid neu yn erbyn ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae'n briodol i'r Cydlynydd/Tiwtor Lleoliad roi cyngor i'r myfyriwr mewn amgylchiadau lle bo'r digwyddiad honedig yn rhan o arfer arferol, fel nad yw'r tystiolaeth yn nodi unrhyw gamymddwyn (e.e. camddehongli dulliau ataliaeth cyfreithlon o dan amgylchiadau priodol).

9.1.1. Dylai'r Datganiad o Fater gynnwys gwybodaeth am gefndir a hanes y pryderon (gan nodi dyddiadau perthnasol) a'r rheswm pam mae'r myfyriwr yn pryderu'n arbennig am y sefyllfa. Gallai fod yn fanteisiol pe bai eraill yn fodlon ychwanegu eu henwau at y datganiad neu ddarparu adroddiadau sy'n atgyfnerthu'r pryderon, ond nid yw hyn yn orfodol.

## 10. Ymchwilio i bryderon

10.1. Caiff y Datganiad o Fater ei gyflwyno gan y Tiwtor Lleoliad i'r PAR ar ran y myfyriwr. Ni fydd yn weithred hon yn awgrymu unrhyw gymeradwyaeth na chefnogaeth i'r honiad gan y Tiwtor Lleoliad. Caiff enw'r myfyriwr ei ddatgelu i'r unigolion a enwir.

10.2. Bydd y Swyddfa Academaidd yn anfon y Datganiad o Fater ymlaen i'r unigolyn a enwir yn y sefydliad dan sylw gan ofyn am ymchwiliad i'r mater a hynny o fewn cyfnod rhesymol, ac o fewn 14 diwrnod yn ddelfrydol. Mewn rhai achosion, gall y Brifysgol ofyn am ymchwiliad cyflymach.

10.3. Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig penodol y myfyriwr y gwnaiff y Brifysgol ddatgelu enw'r myfyriwr. Fodd bynnag, gall amgylchiadau godi, oherwydd natur y lleoliad, lle bydd enw'r myfyriwr eisoes yn hysbys neu y bydd y myfyriwr yn hawdd ei adnabod o ganlyniad i'r datgeliad.

## 11. Canlyniad yr Ymchwiliad

11.1. Pan fydd ymchwiliad y sefydliad dan sylw wedi dod i gasgliad, caiff adroddiad yn amlinellu'r casgliadau a'r camau a gymerwyd ei gyflwyno gan y sefydliad i'r Swyddfa Academaidd, a fydd yn anfon y canfyddiadau ymlaen i'r PAR. Rhaid i bawb sy'n rhan o'r broses gytuno i gadw gwybodaeth sy'n ymwneud â chanlyniad yr ymchwiliad yn gyfrinachol.

11.2. Bydd swyddogion y Brifysgol a enwyd yn cwrdd i drafod yr adroddiad.

11.2.1. Os ydynt yn fodlon bod darparwr y lleoliad yn bodloni ei gyfrifoldebau o dan y cod ymarfer proffesiynol perthnasol a'r Cod Ymarfer ASA ar gyfer Dysgu ar Leoliad, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw faterion yn peri pryder mewn perthynas ag adran 1.3, ni fydd dim camau pellach yn cael eu cymryd gan y Brifysgol gyda'r darparwr lleoliad.

11.2.2. Os nad ydynt yn fodlon bod darparwr y lleoliad yn bodloni ei gyfrifoldebau o dan y cod ymarfer proffesiynol perthnasol a'r Cod Ymarfer ASA ar gyfer Dysgu ar Leoliad, neu mae'n ymddangos bod materion yn peri pryder mewn perthynas ag adran 1.3, bydd y Brifysgol yn cymryd camau pellach i fodloni ei chyfrifoldebau ei hun tuag at fyfyrwyr (er enghraifft trwy gyfeirio ei phryderon at y corff proffesiynol perthnasol). Hefyd, gall drafod unrhyw faterion perthnasol gyda'r myfyriwr a gododd y pryderon.

11.2.3. Yna, bydd y Brifysgol yn rhoi'r adroddiad terfynol i'r myfyriwr mewn perthynas â'r pryderon.

## 12. Adolygu Canlyniad

12.1. Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon ar ganlyniad yr ymchwiliad, dylent siarad yn y lle cyntaf gydag aelod enwebedig o'r PAR i drafod eu pryderon. Hefyd, cânt hefyd wneud cwyn ffurfiol o dan Bolisi Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr neu'r weithdrefn cwynion perthnasol yn y sefydliad partner dan sylw.

## 13. Monitro

13.1. Bydd y Brifysgol yn adolygu'r polisi a gweithdrefn yma'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol a chyfredol.

## 14. Goblygiadau o ran Adnoddau

| **Goblygiad** | **Manylyn** |
|---|---|
| Cyllid | |
| Staff | *Tiwtoriaid Lleoliad; Deoniaid Cynorthwyol, Pennaeth Achosion Myfyrwyr* |
| Asedau | |
| Partneriaid: | |
| Graddfa Amser: | |
| Arweinyddiaeth | *Pro Is-Ganghellor (MP)* |

## 15. Asesiad o Effaith:

| **Goblygiad** | **Ystyriwyd effaith (Do/Naddo)** | **Adnabod Effaith** |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | **Do** | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â:*<br><br>*Cyfraith contract a defnyddiwr*<br>*Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>*Deddf Cydraddoldeb 2010*<br>*Cyfiawnder Naturiol (tegwch)*<br>*Deddf Diogelu Data 2018 (a GDPR)* |
| Cyfraniad i'r Cynllun Strategol | **Do** | *Mae'r polisi'n alinio gyda'r gwerthoedd a nodir yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi data | **Do** | |
| Cydraddoldeb | **Do** | *Bydd y polisi'n sicrhau ymlyniad at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Y Gymraeg | **Do** | *Mae'r polisi'n alinio gydag egwyddorion a nodwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a chynaliadwyedd | **Do** | *Dim wedi'u hadnabod.* |
| Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata | **Do** | *Bydd y polisi ar gael i staff a myfyrwyr drwy'r Hwb a'r wefan.* |

## 16. Awdur y Polisi

16.1. Yr Athro Kyle Erickson, Cyfarwyddwr Profiad Academaidd

## 17. Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft | KE | 16.03.2023 |
| | | | |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd


**Ydy'r polisi'n berthnasol i: AU**

**Dyddiad y dilyswyd gan y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr:**

**Effeithiol o:** 01.09.2023

**Dyddiad adolygu polisi:**

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant


Dechrau
Myfyriwr yn gweld digwyddiad neu fater sy'n peri pryder
Myfyriwr yn cael trafodaeth gyda'u Tiwtor Cyswllt Lleoliad lle bydd y myfyriwr yn codi ei bryderon
Ydy'r digwyddiad honedig yn cael ei ystyried yn arfer normal?
Ydy
Diwedd
Na
Mae'r PAR yn cwrdd i ymgymryd ag asesiad cychwynnol a nodi unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd ar unwaith.
Myfyriwr yn drafftio Datganiad o Fater gydag amlinelliad o gefndir a manylion y digwyddiad honedig gan gynnwys dyddiadau ac enwau tystion. Dylai'r datganiad gynnwys rhesymau dros bryderon y myfyriwr.
Cyflwyno Datganiad o Bryder i'r PAR.
Cyflwyno Datganiad o Bryder gan y Swyddfa Academaidd i'r unigolyn cyswllt dynodedig y sefydliad sy'n darparu'r profiad.
Bydd y sefydliad sy'n darparu'r profiad yn cynnal ymchwiliad mewnol yn unol â gweithdrefn berthnasol y sefydliad.
Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd darparu'r profiad yn darparu adroddiad yn cynnwys manylion y canlyniadau a'r camau i'w cymryd i'r Swyddfa Academaidd
Bydd y PAR yn cwrdd i ystyried yr adroddiad
Ydy'r Brifysgol yn fodlon ar yr ymateb a'r camau a gymerwyd?
Nac ydy
Y Brifysgol i ystyried p'un a oes angen camau pellach er mwyn diogelu myfyrwyr a'r cyhoedd, gan gynnwys cyfeiriad at gorff allanol priodol.
Ydy
Y Brifysgol i ddarparu adroddiad terfynol i'r myfyriwr
Ydy'r myfyriwr yn fodlon ar y canlyniad?
Nac ydy
Y myfyriwr i drafod gydag aelod o'r PAR a gall gychwyn gweithdrefn gwynion briodol
Ydy
Diwedd